OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2025 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cylchfan Carew Cheriton, Sir Benfro) (Dileu Cyfyngiadau) 2025

*Gwnaed* *15 Gorffennaf 2025*

*Yn dod i rym* *18 Gorffennaf 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A477, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 82(2) ac adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**.**

**Enwi a Chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Cylchfan Carew Cheriton, Sir Benfro) (Dileu Cyfyngiadau) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Gorffennaf 2025.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A477 Sanclêr i Ddoc Penfro.

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

# 2025 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A477 Trunk Road (Carew Cheriton Roundabout, Pembrokeshire) (Derestriction) Order 2025

*Made* *15 July 2025*

*Coming into force* *18 July 2025*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A477 trunk road, and in exercise of the powers conferred upon them by sections 82(2) and 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

The Welsh Ministers have given public notice of their intention to make this Order in accordance with section 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

**Title and Commencement**

**1.** The title of this Order is the A477 Trunk Road (Carew Cheriton Roundabout, Pembrokeshire) (Derestriction) Order 2025 and this Order comes into force on 18 July 2025.

**Interpretation**

**2.** In this Order "the trunk road" ("y gefnffordd") means the A477 St Clears to Pembroke Dock Trunk Road.

(**1**) 1984 c. 27; sections 82(2) and 83(1) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 59(3) and 60(2). By virtue of S.I.1999/672, Article 2 and Schedule 1 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**Dileu Cyfyngiadau**

**3.** Bydd y darn o’r gefnffordd sy’n cynnwys system gylchu Cylchfan Carew Cheriton yn Sir Benfro yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 15 Gorffennaf 2025

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**Derestriction**

**3.** The length of the trunk road that comprises the Carew Cheriton Roundabout gyratory in the County of Pembrokeshire shall cease to be a restricted road for the purposes of section 81 of the Road Traffic Regulation Act 1984

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 15 July 2025

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Transport
Welsh Government